

I: Penaethiad sefydliadau addysg uwch

Cyfeirnod: W03/9HE
Dyddiad: 21 Chwefror 2003
Ymateber erbyn: 7 Mawrth 2003
Gwybodaeth bellach: Alison Allan

DYRANIADAU O'R GRONFA DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG

Fel y gwyddoch mae'n debyg, nid ydym wedi gwneud cais ffurfiol eleni am strategaethau darpariaeth cyfrwng Cymru wedi'u diweddarau.

Buom yn ymwybodol iawn o'r pwysau sydd ar sefydliadau o ganlyniad i Ymgeisio'n Uwch, yn enwedig mewn perthynas ag ailgyflunio a chydweithio ac ehangu mynediad, ac felly rydym wedi ceisio lleihau a lledaenu'r baich sy'n codi o'n ceisiadau safonol am strategaethau mewn meysydd neilltuol. Mae sefydliadau eisoes wedi cyflwyno eu strategaethau cyfrwng Cymraeg ac felly mae gweithgarwch yn 2002/03 yn fater o dreiglo cynlluniau ymlaen flwyddyn i raddau helaeth.

Yn 2002/03 hefyd daw cyfnod tair blynedd cyntaf y gronfa darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ben a dyma'r adeg y dywedasom y byddem yn adolygu, yn arbennig, y ddarpariaeth isafswm a ddyrennir i sefydliadau sy'n cynnig ychydig bach o ddarpariaeth. Byddwn yn ymgynghori ar hyn cyn bo hir.

Mewn ymateb i Ymgeisio'n Uwch, buom hefyd yn gweithio i ddatblygu polisi'r Cyngor yn y dyfodol ar gefnogi ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch. Mae hyn wedi cynnwys trafodaethau manwl â chynrychiolwyr Bwrdd Addysgu Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru a Swyddog Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru. Cyflwynwyd adroddiad cychwynol i Lywodraeth Cynulliad Cymru fis Gorffennaf diwethaf (Cylchlythyr W02/64HE) ac mae adroddiad dilynol newydd gael ei gyflwyno. Un o ystyriaethau pwysig y gwaith hwn fu sut y gallwn ddatblygu, mewn partneriaeth â'r sector, ymagwedd strategol at gyrraedd targed Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn ystod y misoedd nesaf byddwn yn trafod â'r sefydliadau sut y byddwn yn symud ymlaen â hyn, ac nid ydym am i sefydliadau unigol dreulio amser yn gwneud newidiadau sylweddol i'w strategaethau ar gyfer 2002/03.

Felly, yn wyneb yr uchod, byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon adroddiad byr ar gynnydd, yn nodi'r gweithgareddau yr ymgwymerwyd â hwy yn 2001/02, a chadarnhau sut y defnyddiwyd y dyraniad o'r gronfa

darpariaeth cyfrwng Cymraeg i gefnogi'r gweithgareddau hyn. Roedd y datblygiadau yn Abertawe am adnoddau yn y Gyfraith. Byddwch cystal â nodi wedyn sut yr ydych yn defnyddio/bwriadu defnyddio eich dyraniad o'r gronfa darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn 2002/03. Fe'ch hysbyswyd o'r rhain ym mis Mai y llynedd ond rhestrir hwy eto yn Atodiad A. Hefyd byddwch cystal â chynnwys datganiad byr ar sut y defnyddiwch eich dyraniadau cyllid premiwm cyfrwng Cymraeg i gynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn eich sefydliad. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ateb erbyn **7 Mawrth**. Bydd hyn yn ein galluogi i ryddhau dyraniadau erbyn diwedd y mis hwnnw. Byddwch cystal ag anfon eich ateb at Alison Allan. Byddwch cystal â chysylltu ag Alison os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Yn gywir

Nodyn: Cynhwyswyd yn y llythyron i sefydliadau unigol unrhyw faterion penodol sy'n ymwneud â'r ymateb yr hoffai'r Cyngor ei dderbyn.